



GwE Global Futures
Dyfodol Byd-Eang GwE
Newyddlen ITM/Ieithoedd Rhyngwladol
Sector Uwchradd



RHIFYN 3 : Ion - Chwe 2021

BLWYDDYN NEWYDD DDA!

RHY DDA I'W GOLLI!

Cynnig Dysgu Proffesiynol Dyfodol Byd-eang GwE:

Gweminar: Dyfodol Byd-eang GwE - Paratoi ar gyfer arholiad Siarad TGAU 2021
Dydd Llun 25 Ionawr 4yp hyd 5yp.

Cyflwyniad ar strategaethau ac adnoddau effeithiol i hwyluso paratoi myfyrwyr ar gyfer arholiad Siarad ITM TGAU 2021. Bydd y sesiwn yn seiliedig ar yr addasiadau diweddar i'r asesiad. Byddwn yn rhannu adnoddau ymarferol i ddatblygu iaith a sgiliau hanfodol, gan gynnwys adalw patrymau craidd ac amserau'r ferf, ar gyfer elfennau chwarae rôl a siarad Uned 1. Bydd cyfle hefyd i drafod a rhannu arferion da.

Cofrestru drwy Gynnig GwE ar G6.

CYFARFODYDD HWB

Rydym yn gobeithio cynnal rhywfaint o gyfarfodydd Hwb tuag at ddiwedd mis Ionawr. Cyfarfodydd byr fydd y rhain (30 munud) a fydd yn rhoi cyfle i ni ddod at ein gilydd unwaith eto a thrafod ble mae ysgolion arni, y llwyddiannau a'r heriau sydd o'ch blaen chi, a sut i'w goresgyn. Fe'u cynhelir ar ôl ysgol fel y gall pawb ddod. Bydd y dyddiadau a'r amseroedd ar gyfer pob Hwb yn cael eu cadarnhau'n fuan.

Adnoddau dysgu cyfunol CA4 a CA5:

1- TIWTORIAL

Mae Tîm Dyfodol Byd-eang GwE wedi cynhyrchu tiwtorialau ar gyfer dosbarthiadau arholiad yn CA4 a CA5. Tiwtorialau byr wedi'u recordio yw'r rhain, i'w defnyddio yn y dosbarth neu'r cartref. Cynhyrchwyd tiwtorialau a chyflwyniadau PowerPoint/dogfennau Word yn y Saesneg, a bydd y fersiwn Gymraeg ar gael erbyn diwedd mis Ionawr. Byddant ar gael ar Hwb ITM GwE. (Mae'r fersiynau Saesneg eisoes ar gael: KS4 TUTORIALS/ KS5 TUTORIALS)

Mae 7 tiwtorial:

CA5:

Sgiliau ysgrifennu UG: cynllun marcio

Sgiliau Ysgrifennu UG/U2: strwythur traethawd/paragraff

Sgiliau Ysgrifennu UG/U2: darllen y cwestiwn yn dda

Siarad UG CERDYN A: cynllun marcio

Siarad UG CERDYN A: gwybodaeth ddiwylliannol

Siarad UG CERDYN A: gweithgareddau cyflym

CA4:

Sgiliau Ysgrifennu TGAU: Cwestiwn 2 Haen Uwch

2- ADNODDAU:

Mae Tîm Dyfodol Byd-eang GwE wedi cynhyrchu set o adnoddau i helpu paratoi ar gyfer yr arholiad llafar.

Mae'r adnoddau yn canolbwyntio ar sgiliau ac ymarfer ar gyfer arholiadau 2021:

- 1- Chwarae rhan
- 2- Sgwrs
- 3- Ymadroddion craidd/allweddol

Yn ystod ein weminar sgiliau siarad (gweler uchod am wybodaeth), byddwn yn cyflwyno a rhannu'r adnoddau hyn.

CYNLLUN LLYSGENHADON IAITH RHITHWIR LLWYBRAU AT IEITHOEDD CYMRU (vPLA):

- Wrth glicio ar y ddolen hon fel welwch lyfryn gwybodaeth sy'n amlinellu sut fydd y cynllun PLA rhithwir yn gweithredu eleni: <https://bit.ly/3gEURub>
- Rydym hefyd wedi creu taflen wybodaeth y medrwch ei rannu ymhlith eich disgyblion er mwyn ennyn diddordeb yn y rôl ac i'ch galluogi i ddewis hyd at 5 disgybl o flynyddoedd 7-9 a fydd yn derbyn yr hyfforddiant ar-lein: <https://bit.ly/2VXsvBS>
- Gallwch hefyd gofrestru eich ysgol ar gyfer y cynllun rhithwir trwy ddilyn y ddolen ganlynol: <https://bit.ly/39tDTNQ>

Edrychwn ymlaen at gyd-weithio gyda chi ar y cynllun hynod gyffrous hwn eleni!

***NEWYDD* FIDEO HYRWYDDO LLWYBRAU AT IEITHOEDD CYMRU:** Pleser yw rhannu ein fideo hyrwyddo newydd gyda chi! Rydym yn hynod falch o'r fideo ac yn gobeithio y bydd yn ysbrydoli ac yn galluogi disgyblion o bob oedran i weld manteision astudio ieithoedd. Rhannwch y fideo a defnyddiwch ef yn eich gwersi! Dyma'r ddolen: <https://youtu.be/jwqrZ4Q8iU8>

TAFLENNI GYRFAOEDD LLWYBRAU AT IEITHOEDD CYMRU: Rydym wedi ailwampio a diweddarau ein taflenni gyrfaoedd hynod boblogaidd. Gobeithio byddant o ddefnydd yn eich nosweithiau agored rhithwir neu mewn cyfarfodydd dewisiadau blwyddyn 9. Gallwch eu lawrlwytho o'n gwefan ac maent ar gael yn ddwyieithog: <https://bit.ly/3g7Vs7A>



Cynllun mentora myfyrwyr ôl-16

Bydd Prosiect Adfywio Ieithoedd Ôl-16 yn dychwelyd!
Byddwn ni'n nôl mis Ionawr, 2021 efo amrywiaeth dda o weithgareddau. **Cynhelir y rhaglen rhwng 18 Ion – 26 Chwe, 2021.**

Unwaith eto, bydd y gweithgareddau hyn yn cynnwys darlithoedd a seminarau, dosbarthiadau iaith Safon Uwch ac ieithoedd Blasau. Diolch o galon i chi a'ch dysgwyr am eich sylwadau. Gyda'r rhain, rydym wedi gallu addasu amser ein sesiynau ac ychwanegu rhagor o sesiynau i ddysgwyr eu mwynhau!

	<p>Edrychwch ar dudalennau Hwb am weithgareddau'r tymor sydd i ddod: https://hwb.gov.wales/playlists/view/96b85329-9c93-4028-bee1-dd410e2a9843/en/1</p> <p>Dyma amserlen y gweithgareddau: https://docs.google.com/document/d/1dbDmyMbjlTkl2CqbNOg9vP4sRn_n61x0JlxrmP3eWZU/edit?usp=sharing</p> <p>Mae'r amserlen yn un fyw a chaiff ei diweddarau'n gyson wrth i ni ychwanegu sesiynau newydd.</p>
	<p>Cyfarfodydd rhwydwaith ITM Dyfodol Byd-eang GwE: Mae ANG ITM mewn ysgolion uwchradd bellach yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu syniadau, cael cymorth a datblygu eu harferion. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â: stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru. Cyfarfod nesaf: 20/01/21 3.30pm</p>
	<p>Cyfathrebu Busnes Byd-eang: Dyfodol Byd-eang GwE Mae'n bleser gennym groesawu Lucy Douglas o Ysgol Uwchradd y Rhyl at ein Tîm, yn arweinydd ac ysgol arweiniol CBB. Ers cyflwyno'r cymhwyster, mae Lucy wedi gweithio'n ddiflino i gynhyrchu ystod eang o adnoddau, cysylltu â'r bwrdd arholi, trefnu ac arwain amrywiol gyfarfodydd i athrawon. Bydd ei chymorth parhaus i ysgolion sydd yn cyflwyno'r cwrs ar hyn o bryd, neu'r ysgolion sydd â diddordeb mewn cynnig y cwrs, yn amhrisiadwy.</p>
	<p>Allwch chi ganu neu rapio mewn Ffrangeg? A oes gennych chi'r sgiliau i wneud clip fideo? Os felly, hon yw'r gystadleuaeth i chi!</p> <p>Bydd #FrenchPopVideoCompetition yn dychwelyd yn 2021. Ar agor i bob disgybl oed cynradd ac uwchradd yn yr Alban, Lloegr, Cymru, Gogledd Iwerddon, ac Ynysoedd y Sianel! Ewch ati i gofrestru a chyflwyno eich fideos cyn 31/03/2021 🎵</p> <p>Cofrestrwch yma: https://bit.ly/FrenchPopVideoCompetition2021</p>



Gweithdai Deallusrwydd Artiffisial i Fyfrwyr ac Athrawon 12 Ion – 18 Chwe 2021.

Mae Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn raddol yn dod yn amlycach ym mhob maes gan gynnwys addysgu. Felly, mae Goethe-Institut, Llundain yn falch o allu cynnig cyfres o weithdai am ddim i fyfrwyr 14+ oed (A1- A2 Almaeneg) a hyfforddiant DPP i athrawon mewn cydweithrediad ag IMAGINARY.

Bydd myfyrwyr yn dysgu am gysyniadau craidd Deallusrwydd Artiffisial, cael profiad ohonynt a chwarae gyda nhw. Mae opsiwn i athrawon gael hyfforddiant hefyd mewn Almaeneg, neu Saesneg. Cynhelir y gweithdai ar Zoom. Bydd llefydd ar sail y cyntaf i'r felin.....

Cofrestrwch yma:

https://www.goethe.de/ins/gb/en/spr/unt/ver/ver.cfm?fuasection=events.detail&event_id=22067268



Speak Up German 2021

A ydych chi ym mlwyddyn 11, 12 neu 13 yn astudio Almaeneg? Hoffech chi gyfarfod â myfyrwyr eraill sydd yn astudio Almaeneg, neu â diddordeb mewn siarad am amryw byd o destunau?

Bydd ein sesiynau 'Speak Up German' yn gymorth i chi ddatblygu sgiliau wrth siarad am amryfal destunau. Bydd y sesiynau dan arweiniad Candida Javaid (Arweinydd Pwnc Gramadeg, Royal Grammar School, High Wycombe) ac Emma Whittle (Arweinydd Pwnc Almaeneg yn Ysgol Ramadeg Dr. Challoner).

Cynhelir y sesiynau bob yn ail ddydd Iau yn ystod tymor y Gwanwyn dros Zoom o 4.30pm-5.15pm.

Cofrestrwch yma:

<https://www.goethe.de/ins/gb/en/spr/unt/kum/dfj/sug.html>

AR Y GWEILL

Cynnig Dysgu Proffesiynol Dyfodol Byd-eang GwE:

Cadwch lygad ar fwletin wythnosol GwE (cofrestrwch), cyfrif Twitter GwE, a'r wybodaeth a ddaw gan eich ysgol am Gynnig Proffesiynol GwE.

Bydd y Tîm yn cynnig sesiynau ar **Adalw mewn ITM**. (mis Chwefror 2021)

Bydd hwn yn gyfle da i ni **gyfarfod fel rhwydwaith unwaith eto**, rhannu syniadau a datblygu ein harferion ymhellach.

Mae ein weminar ar Her a gynhaliwyd ar 30 Tach 2020, ar gael ar Sianel YouTube GwE.

Dyma'r cyswllt i wyllo: <https://youtu.be/AWazlN4XnDk>

Ychwanegwyd yr holl adnoddau at Hwb ITM GWE: WEMINAR HER MEWN ITM

**A oes gennych chi unrhyw syniadau eraill yr hoffech chi eu rhannu?
Cysylltwch â'r tîm!**

DWEUD EICH DWEUD A RHANNU ARFERION DA



A oes gennych chi ddi-ddordeb mewn rhoi elfen o 'gêm' yn eich gwersi?
Gwylwch y weminar ddifyr hon sy'n llawn ysbrydoliaeth ar Genial.ly. gan Joe Dale ac Marie Alliot ar 9/12/20.

Rhowch elfen o 'gêm' yn eich dosbarth ITM

<https://youtu.be/OXEDrFcRXsU>

EIN PARTNERIAID



Routes into Languages Cymru:

<http://routesintolanguagescymru.co.uk/>



Institut français

<https://ifprofs.org/uk>



Goethe Institute:

<https://www.goethe.de/ins/gb/en/new.html>



Consejería Española:

https://www.educacionyfp.gob.es/reinounido/en_GB/oficina-sycentros.html



Confucius Institute: <https://www.bangor.ac.uk/confucius-institute/>



Y Cyngor Prydeinig: <https://wales.britishcouncil.org/en>

AC HEFYD



Linguascope: <https://www.linguascope.com/>



Association for Language learning: <https://www.all-languages.org.uk/>

CYSYLLTWCH Â NI

Tîm Dyfodol Byd-eang GwE:

Arweinydd Dyfodol Byd-eang GwE: Stephanie Ellis-Williams

stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru

Arweinydd Hwb Wrecsam/Sir y Fflint: Angela Gregory (Ysgol Alun – Yr Wyddgrug)

Angela.Gregory@alun.flintshire.sch.uk

Arweinydd Hwb Conwy/Sir Ddinbych; Viviane Vick (Ysgol Uwchradd Prestatyn - Prestatyn)
vvick@prestatynhigh.co.uk

Arweinydd Hwb Gwynedd/Anglesey: Emma Green (Ysgol Dyffryn Ogwen- Bethesda)
emmag@ydo.cymru

Arweinydd GBC: Lucy Douglas (Ysgol Uwchradd y Rhyl)
ld@rhyhigh.co.uk

Bwletin wythnosol GwE <https://www.gwegogledd.cymru/newyddion/bwletin/?lang=en>

Cyfrif Twitter GwE: @GwEGogleddCymru